# Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU

**Mai 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Gair am yr argraffiad hwn

Ym mis Mai 2023, cynhyrchwyd yr argraffiad hwn o God Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) i sicrhau bod y testun cyflwyniadol yma'n adlewyrchiad cywir o sefyllfa reoleiddiol gyfredol y Cod Ansawdd.

Nid yw testun y Cod Ansawdd ei hun (sef y Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin) wedi newid ers ei gyhoeddiad yn 2018.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae sector addysg uwch y DU wrthi'n trafod cwmpas a strwythur arfaethedig yr argraffiad nesaf o'r Cod Ansawdd er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn werthfawr i fyfyrwyr a staff ledled y DU.

## UKSCQA a QAA

Mae'r Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU (UKSCQA) yn goruchwylio'r trefniadau asesu ansawdd hynny ym maes addysg uwch sy'n parhau i gael eu rhannu drwy'r DU gyfan.

Tynnir aelodau'r pwyllgor o brifysgolion a cholegau a gyllidir yn gyhoeddus, ac o'r darparwyr hynny sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr i bwrpasau cymorth ariannol i'w myfyrwyr. Cynrychiolir buddiannau'r myfyrwyr gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a gan aelodau unigol sy'n fyfyrwyr. Tynnir ei aelodaeth hefyd o'r pedwar corff sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg uwch yn y DU, ac o gyrff eraill yn y sector, a phartneriaid rheoleiddio. Datblygwyd y Cod Ansawdd gan QAA ar ran UKSCQA yn 2018. Mae'n cynrychioli'r disgwyliadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ymgynghorodd y Swyddfa Myfyrwyr ar ofynion newydd a gafodd eu cyflwyno ym mis Mai 2022. Yn Lloegr, disodlwyd y Cod Ansawdd gan Amodau Cofrestru'r Swyddfa Myfyrwyr, i fod yn ofynion rheoleiddiol.

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff annibynnol o arbenigwyr sy'n sicrhau ansawdd addysg uwch y Deyrnas Unedig. Mae cyfrifoldebau QAA yn cynnwys cadw a chynnal, ar ran y sector, gyfres o bwyntiau cyfeirio sy'n cynnwys y Cod Ansawdd.

# Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU

Mae'r Cod Ansawdd yn ymgorffori dealltwriaeth gyffredin sector addysg uwch y DU o arferion yn ymwneud ag ansawdd. Mae'n diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cyhoedd ac yn hyrwyddo enw da sector addysg uwch y DU am fod ymysg y gorau yn y byd. O dan arweiniad y sector, mae'r Cod Ansawdd yn barod ar gyfer y dyfodol ac mae ar gael i'n sector addysg uwch amrywiol i gyd yn y DU.

Mae'r Cod Ansawdd yn disgrifio'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli ansawdd ym maes addysg uwch drwy'r DU gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys egwyddorion megis pwysleisio rôl y darparwyr yn y gwaith o sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cynnig i'w myfyrwyr, cefnogi ymgysylltiad y myfyrwyr, a sicrhau y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn cefnogi cywirdeb y dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'n ymgorffori'r diwylliant o gydweithrediad sy'n tanategu sector addysg uwch y DU. Roedd arbenigedd y sector yn werthfawr iawn wrth lunio'r Disgwyliadau, yr Arferion a'r themâu Cyngor ac Arweiniad sy'n helpu i roi'r Cod Ansawdd yn ei gyd-destun ymarferol.

## Strwythur y Cod

Mae'r Cod Ansawdd wedi'i seilio ar ddwy elfen sydd, gyda'i gilydd, yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer sicrhau ansawdd yn effeithiol:

1. **Disgwyliadau** sy'n nodi'n gryno beth yw'r canlyniadau y dylai darparwyr eu sicrhau wrth osod a chynnal safonau eu dyfarniadau, ac wrth reoli ansawdd eu darpariaeth.

2. **Arferion Craidd ac Arferion Cyffredin** sy'n nodi ffyrdd effeithiol o weithio, sy'n tanategu'r gwaith o sicrhau'r Disgwyliadau, ac a fydd yn sicrhau canlyniadau positif i'r myfyrwyr. Mae'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn dal i fod yn rhan o'r fframweithiau ansawdd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond mae'n rhaid i'r sefydliadau yn Lloegr gydymffurfio â Fframwaith Rheoleiddio ac Amodau Cofrestru'r Swyddfa Myfyrwyr. Er nad yw'r Cod Ansawdd yn cynrychioli gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i sefydliadau sydd wedi eu seilio yn Lloegr, mae modd i'r darparwyr hynny ddewis defnyddio'r Cod i'w bodloni eu hunain bod eu prosesau sy'n ymwneud ag ansawdd yn cefnogi gwelliant sy'n uwch na'r gofynion sylfaenol.

I helpu i weithredu'r Disgwyliadau a'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin, mae cyfres o themâu Cyngor ac Arweiniad ar gael i helpu darparwyr sefydledig a darparwyr newydd fel ei gilydd i ddatblygu, cynnal a gwella arferion effeithiol i sicrhau ansawdd. Nid yw'r themâu hyn yn rhan ffurfiol o'r Cod Ansawdd.

## Y defnydd a wneir o'r Cod Ansawdd

Ar draws sector addysg uwch y DU, cydnabyddir fod y Cod Ansawdd yn bwynt cyfeirio allweddol sy'n cynnig fframwaith ansawdd i ddarparwyr i'w helpu i adeiladu profiad o safon uchel i'w myfyrwyr sy'n cefnogi'r myfyrwyr gyda chyrsiau a luniwyd yn dda i ennill y cymwysterau a fydd yn eu helpu i gyflawni eu dyheadau gyrfaol hirdymor.

Gall darparwyr ddefnyddio'r Cod Ansawdd yn unol â'u cenhadaeth addysgol, a'r trefniadau ansawdd cenedlaethol a'r gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol iddynt. Anogir myfyrwyr addysg uwch a'u cynrychiolwyr i ddefnyddio'r Cod fel man cychwyn i ymgysylltu â'u darparwr ynghylch ansawdd eu haddysg, ac i ba raddau y mae'r canlyniadau a ddisgwylir wedi'u cyflawni.

Gan mai cyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig yw rheoli addysg uwch, mae'r union drefniadau cenedlaethol ar gyfer ansawdd yn gwahaniaethu o un wlad i'r llall, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut y defnyddir rhannau o'r Cod Ansawdd i oruchwylio ac adolygu addysg uwch yn allanol.

Mae'r cyrff cyllido a rheoleiddio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mewn cydweithrediad â QAA, yn defnyddio'r Cod Ansawdd fel sail ar gyfer asesu ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yn unol â'u cyfrifoldebau statudol. Yn Lloegr, nid oes gan y Cod statws rheoleiddiol sy'n gyfatebol, ac mae'r darparwyr yn ei ddefnyddio'n wirfoddol i wella eu harferion. Bydd angen i'r darparwyr yn Lloegr gyfeirio at Fframwaith Rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr i gael manylion y gofynion rheoleiddiol nhw o ran ansawdd sy'n berthnasol iddyn nhw.

# Cod Ansawdd y DU

<table>
<tr><th colspan="2">Y disgwyliadau o ran safonau</th><th colspan="2">Y disgwyliadau o ran ansawdd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.<br><br>Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir ac a roddir i'r myfyrwyr pan fyddent yn cymhwyso a thros amser yn cyfateb â'r safonau a gydnabyddir gan y sector.</td><td colspan="2">Mae'r cyrsiau wedi'u llunio'n dda, ac maent yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd, ac yn caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.<br><br>O'r cam derbyn hyd y graddio, mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch.</td></tr>
<tr><td>Yr Arferion Craidd<br><br>Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.<br><br>Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.<br><br>Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.<br><br>Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.</td><td>Yr Arferion Cyffredin<br><br>Mae'r darparwr yn adolygu ei Arferion Craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.</td><td>Yr Arferion Craidd<br><br>Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.<br><br>Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.<br><br>Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.<br><br>Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.<br><br>Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.<br><br>Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.<br><br>Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.<br><br>Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.<br><br>Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.</td><td>Yr Arferion Cyffredin<br><br>Mae'r darparwr yn adolygu ei Arferion Craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.<br><br>Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.<br><br>Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.</td></tr>
</table>

## Rhestr termau

Diffiniwyd y termau isod i bwrpas ac yng nghyd-destun sicrhau ansawdd ym maes addysg uwch y DU, ac mae'r diffiniadau a roddwyd yn berthnasol drwy'r Cod Ansawdd i gyd. Bydd rhagor o wybodaeth i ategu'r diffiniadau a roddwyd yma yn y themâu Cyngor ac Arweiniad sy'n tanategu'r Cod. Nodwch os gwelwch yn dda ei bod hi'n bosibl y gallai'r termau isod gael eu diffinio'n wahanol mewn cyd-destunau eraill (yn y maes addysg uwch a thu hwnt) a gan wahanol rhanddeiliaid (er enghraifft, cyrff rheoleiddio, myfyrwyr, darparwyr unigol).

**Dros amser** - yn cyfeirio at y ffaith fod angen i'r cyflawniadau a gynrychiolir gan gymhwyster fod yn gymaradwy gyda chyflawniadau graddedigion yn y gorffennol neu yn y dyfodol sydd â'r un cymhwyster.

**Gwelliant** - sef y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae dysgu'r myfyrwyr yn cael ei gefnogi.

**Gwerth** - yn cyfeirio at hygrededd a statws da'r cymwysterau, a pha mor ddibynadwy y maent yn adlewyrchu a chofnodi'n gyson y cyflawniad academaidd.

**Y myfyrwyr i gyd** - yn cyfeirio at y myfyrwyr i gyd, beth bynnag fo'u cefndir neu unrhyw nodweddion gwarchodedig sydd ganddynt, sy'n astudio ar unrhyw lefel neu drwy unrhyw ddull (er enghraifft, israddedig neu ôl-raddedig, llawn amser neu ran amser; p'un a ydynt yn fyfyrwyr dysgu o bell, seiliedig ar waith neu ar y campws; neu'n brentisiaid addysg uwch).

**Partneriaeth** - yn ymwneud â'r holl drefniadau lle mae darparwr yn gweithio gydag eraill i lunio a/neu i ddarparu cyrsiau a/neu i ddyfarnu cymwysterau. Gall y rhain gynnwys trefniadau dilysu ac is-gontractio (neu etholfreinio), trefniadau dysgu seiliedig ar waith a chydweithrediadau â chyflogwyr (gan gynnwys y rheiny i ddarparu prentisiaethau), trefniadau addysg drawswladol, a phartneriaethau a chydweithrediadau rhyngwladol. Bydd y prosesau y bydd angen i ddarparwyr eu dilyn er mwyn sicrhau safon uchel yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y math penodol o bartneriaeth a'r risgiau perthnasol.

**Profiad academaidd** - sef profiad y myfyrwyr o astudio ar eu cyrsiau, a'u profiad o unrhyw beth arall y mae'r darparwr yn eu cynnig iddynt, megis adnoddau, cymorth, cyfleusterau a chyfleoedd, i gefnogi'r myfyrwyr gyda'u dysgu.

**Safon uchel** - wedi'i diffinio fel y safon sy'n gallu arwain yn gyson at ganlyniadau positif, dibynadwy a chydnabyddedig i'r myfyrwyr. Safon uchel yw'r lefel isaf y disgwylir i bob darparwr addysg uwch y DU ei chyrraedd.

Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn ym mis Mai 2023